

Defnyddio'r Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Thomas Rees

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Thema: Trychinebau Tywydd Blwyddyn 5

Beth yw dysgu trawsgwricwlaidd?

Dysgu trawsgwricwlaidd yw pan gaiff sgiliau, gwybodaeth ac agweddau nifer o wahanol ddisgyblaethau eu gosod mewn un profiad, problem, cwestiwn neu syniad (Barnes, 2015).

Pwysleisia Donaldson (2015, t.42) “Dylai dysgu gan blant a phobl ifanc gael ei ddatblygu ar draws y cwricwlwm drwy dri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd”. Ychwanega Donaldson (2015) y dylai ysgolion penodi aelod o staff a fydd yn arwain a’n hybu un o’r tri chyfrifoldeb.

Ceir tri chyfrifoldeb wrth drafod dysgu trawsgwricwlaidd:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Camasid Digidol

Mae dysgu trawsgwricwlaidd yn darparu amryw o gyfleoedd i ddatblygu ar eu medrau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, yn enwedig o fewn meysydd megis Hanes, Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg, Celf, Cerddoriaeth a Chymraeg (Estyn, 2016).

Y tri chyfrifoldeb (Donaldson, 2015)

LLYTHRENNEDD Nodwyd bod sawl agwedd i lythrennedd a ddylai cael eu hystyried, megis llafar, cystrawen a sillafu.

Awgrymwyd mai’r ffordd orau o ddatblygu sgiliau llythrennedd yw gwneud defnydd o’r iaith mewn cyd-destun perthnasol yn hytrach na dibynnu ar dechnegau drilio. Dylai athrawon ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ‘r sgiliau hyn trwy egluro’u meddyliau a thrafod eu syniadau.

“There is a real danger that we are teaching the mechanics of writing but giving the children nothing to write about”

(Donaldson, 2015, t. 40)

RHIFEDD Does dim amheuaeth bod angen sgiliau er mwyn gallu gweithio’n annibynnol. Yn yr un modd, mae’n bwysig bod disgyblion yn derbyn profiadau perthnasol er mwyn medru creu cysylltiadau i ddigwyddiadau bywyd bob dydd.

Credir ei fod yn bwysig i ddarparu cyfleoedd lle caiff plant brofiadau concrid e.e. chwarae rôl siop gan ddefnyddio arion go-iawn er mwyn dod i adnabod y gwahanol ddarnau o ran edrychiad a chyfri’r arian yn gyflym

CYMHWYSEDD DIGIDOL Mae’r gofyn am sgiliau Cymhwysedd Digidol wedi cynyddu dros y blynyddoedd ddiweddar.

Ymbarél o sgiliau yw Cymhwysedd Digidol sy’n adeiladu ar hyder unigolyn wrth ddefnyddio technolegau a systemau. Mae’r rhain yn sgiliau sy’n galluogir plant i fod yn wybodus, yn alluog a llwyddiannus o fewn cymdeithas. (Llywodraeth Cymru, 2016).


Gweithgaredd 1

Nod: Gosod gwahanol drychinebau ar fap gan ddefnyddio cyfesurynnau

Ar gyfer y model hwn, canolbwyntir ar rifedd fel rhan o wers **Ddaearyddiaeth** er mwyn i’r disgyblion ddarganfod ar fap ym mha ardaloedd o’r byd mae’r gwahanol drychinebau wedi digwydd.

Gwelir bod sgiliau **Rhifedd** a **Daearyddiaeth** yn mynd llaw yn llaw. Yn enwedig wrth ddarllen mapiau lle gofynnir yn y cwricwlwm **Daearyddiaeth** (Llywodraeth Cymru, 2008, t. 12) i ‘Leoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau’ a phlant dderbyn cyfleoedd i ddefnyddio cyfesurynnau.

Model Hierarchaidd (Barnes, 2015)



Nodwyd gan Barnes (2015) bod y model hwn yn ffordd dda i fedru ymglymu iaith i mewn i wersi Daearyddiaeth, ynghyd a sawl pwnc arall.

Yn ystod y dasg fe fydd rhaid i’r plant ddangos eu gallu i adnabod y gwahanol drychinebau sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd a’u gosod yn eu llefydd cywir ar draws y byd gan ddefnyddio mapiau gyda grid cyfesurynnau arno yn barod.

Gofynion y dasg

- Gosod pob un trychineb yn y lle cywir er mwyn dod i adnabod bod patrymau daearyddol i’r wahanol drychinebau.
- Creu allwedd i ddynodi pa symbol sy’n cynrychioli pa drychineb.
- Anodi cyfesurynnau ar gyfer y trychineb hwnnw ar daflen
- Cyfeirnod i’r ddwy echelin yn y drefn gywir, X wedyn Y. E.e. 2,4

Er y gwelir bod defnyddio cyfesurynnau yn rhan o’r cwricwlwm Daearyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2008) mae’r sgil yn un rhifedd ac felly wrth gyfuno’r sgiliau hyn, caiff dysgu ei gyfoethogi oherwydd bod y disgyblion yn dysgu:

- Lle yn union yn y byd digwyddodd y gwahanol drychinebau
- Sut mae defnyddio cyfesurynnau o fewn cyd-destun gyda phwrpas (Donaldson, 2015)

Rhifedd (Llywodraeth Cymru, 2015)

Llinyn: Datblygu ymresymu rhifol

Elfen: Adolygu

Sgil: Defnyddio cyfesurynnau i bennu lleoliad

Gweithgaredd 2

Nod: Creu fideo sy’n trafod trychinebau tywydd
Grwpiau o 5

Yn dilyn y wers cyfesurynnau, gellir ystyried tasg a fyddai’n ymestyn ar sgiliau llythrennedd a chymhwysedd digidol y plant trwy ofyn iddyn nhw i greu darllediad newyddion neu raglen teledu sy’n trafod y gwahanol ddigwyddiadau hyn.

Llythrennedd (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008)

Llinyn: Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Elfen: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Agwedd: Siarad

Sgil: siarad yn eglur, gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu’r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, e.e. digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr

Amlygir llythrennedd yn ystod y broses wrth briodi sgiliau Daearyddiaeth a sgiliau iaith E.e.

- Sillafu - wrth ysgrifennu eu sgriptiau
- Llafar - wrth ffilmio
- Cystrawen - ar draws y broses

Cymhwysedd Digidol (Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, 2008)

Llinyn: Cynhyrchu


Elfen: Creu

Sgil: creu, casglu a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol.

Ar ôl cwblhau eu sgriptiau, bydden nhw’n defnyddio sgrin werdd er mwyn creu set i ffilmio gan ddefnyddio sgiliau llafaredd yn ystod y ffilmio. Byddan nhw’n gyfrifol am olygu’r darnau a sicrhau eu bod nhw o safon er mwyn eu darlledu ar draws hysbysfyrddau electronig yr ysgol.

Nodwyd gan Barnes (2015) wrth ddefnyddio’r model hwn bod rhaid dewis thema sydd o ddiddordeb i’r disgyblion, ynghyd a gofynion Donaldson (2015) bod rhaid cael perthnasedd i’r dysgu. Ychwanega Barnes (2015) bod rhaid i’r thema bod yn gyrraeddadwy, wedi ei gynllunio’n dda ac yn medru cael ei asesu’n effeithiol.

Model Thematig (Barnes, 2015)



Manteision a chyfyngiadau

Model Hierarchaidd (Barnes, 2015)

- Medru cynnwys sgiliau o fewn cwricwlwm llawn a phrysur
- Magu mwy o hyder wrth addysgu pwnc nad sy’n gryfder i athrawon
- Datblygu ar sgiliau o fewn cyd-destun â phwrpas (Donaldson, 2015)

- Posiblirwydd bydd nod y wers yn mynd ar goll
- Gall gormod o ffocws fod ar bwnc sy’n wendid i ambell ddisgybl a fedrir achosi diffyg hyder
- Gwybodaeth pwnc gwan gan athrawon (angen ymhelaethu)

Model Rhyngddisgyblaethol (Barnes, 2015)

- Dau ffocws ar wahan yn gwneud i’r dasg yn haws i’w dilyn (Haws i ddisgyblion ADY)
- Ehangu ar wybodaeth o fewn amryw o bynciau
- Derbyn profiadau llaw cyntaf o weld pam a sut mae’r sgiliau sy’n cael eu datblygu yn bwysig o fewn y byd gwaith

- Angen bod yn hyderus yn y ddau bwnc
- Angen dulliau dysgu ac addysgu hyblyg a chynhwysol
- Gall gyfuniad o bynciau achosi cam-ddeall (nid pynciau sydd yma)

Y ffordd ymlaen

Trafoda Estyn (2016) arfer da ar gyfer gweithredu dysgu trawsgwricwlaidd o fewn ysgolion. Ystyriir

- cyflwyno themâu trawsgwricwlaidd diddorol
- gadael i blant arwain y dysgu (Donaldson, 2015)

“Dylid nodi’r disgwyliadau o ran dilyniant yn y tri Chyfrifoldeb Trawsgwricwlaidd a’u hymgorffori, fel y bo’n briodol, yn y Camau Cynnydd ym mhob un o’r chwe Maes Dysgu a Phrofiad.”

Donaldson (2015, t. 109)

Asesu

Dylai athrawon ystyried y ffordd y maen nhw am gynnal eu hasesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod cynnydd i weld yng ngwaith y plant. Mae’n bwysig fod plant yn gweld cynnydd yn eu gwaith er mwyn iddyn:

- gadw’u cymhelliant a pharhau i roi eu hymdrech llawn i’r dasg oherwydd bod plant yn
- elwa o adborth ac arweiniad gan athro/ athrawes
- fedru bod yn gritigol o waith eu hunain